# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Amrywiol a chyffredinol*

## 25 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr mater "a ragnodir" ("*prescribed*") yw mater sydd yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

mae i'r ymadrodd "ailsgoriad" ("*re-rating*") yr ystyr sydd iddo yn adran 12;

ystyr "anfon" ("*send*") yw anfon drwy'r post neu ddanfon â llaw;

mae i'r ymadrodd "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "gweithredwr" ("*operator*") (sefydliad busnes bwyd) yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "meini prawf sgorio" ("*rating criteria*") yr ystyr sydd iddo yn adran 3;

mae i'r ymadrodd "sefydliad busnes bwyd" ("*food business establishment*") yr ystyr sydd iddo yn adran 2;

mae i'r ymadrodd "sgôr hylendid bwyd" ("*food hygiene rating*") yr ystyr sydd iddo yn adran 3;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw swyddog a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan awdurdod bwyd at ddibenion arfer unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod o dan y Ddeddf hon.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at sticer sgôr hylendid bwyd yn cynnwys, pan fo'r cyd-destun yn mynnu hynny, cyfeiriad at fwy nag un sticer.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 25 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 25.